# Cynllun Dehongli Cymru Gyfan
# Canllawiau brandio 'Dilynwch y stori'

Os ydych chi'n cael cyllid drwy'r Prosiect Twristiaeth Treftadaeth, neu os hoffech fynd ati o'ch gwirfodd i gysylltu'ch gwaith dehongli chi â Chynllun Dehongli Cymru Gyfan, yna darllenwch y canllawiau hyn.

**Rhagymadrodd**

Mae gan Gymru storïau mawr i'w hadrodd, ac oherwydd natur Cymru gall llawer o'r rhain gael eu cysylltu ar draws y wlad - fe allai hyn fod yn un o bwyntiau gwerthu cryfaf Cymru. Mae defnyddio **eiconau storïau** ac awgrymu lleoedd eraill lle y gall ymwelwyr **'Ddilyn y stori'** yn ganolog i'r ymagwedd at ddehongli sy'n cynnwys Cymru gyfan. Y gobaith yw y bydd y dull di-fwlch hwn o ddehongli yn annog yr ymwelwyr i ddeall nad yw henebion yn bodoli ar eu pen eu hunain, ond eu bod yn rhan o stori genedlaethol neu ranbarthol ehangach. Bydd hyn yn eu hannog i grwydro ar safleoedd eraill neu i wneud cysylltiadau rhwng safleoedd a storïau wrth ymweld â safleoedd eraill yn y dyfodol. Dylai rhoi cyfeiriadau fel hyn i'r ymwelwyr greu effaith gadarnhaol ar niferoedd yr ymwelwyr ar bob safle.

**Cefndir**

Mae Cadw yn arwain gwaith i ddatblygu Cynllun Dehongli i Gymru Gyfan a, gan ddefnyddio cyllid a gafodd ei sicrhau drwy Gronfeydd Cydgyfeirio Ewrop mae wrthi'n rhoi'r cynllun ar waith drwy gyfrwng y Prosiect Twristiaeth Treftadaeth. Fel cam cyntaf, defnyddiodd Cadw ymgynghorwyr i greu cynlluniau dehongli ar gyfer y storïau hyn:

- Tarddiadau a Chynhanes Cymru (250,000 CC- 47/78OC)
- Goresgyniad, meddiannaeth a gwladychiad y Rhufeiniaid yng Nghymru (47-410OC)
- Cestyll a muriau tref Edward I
- Tywysogion Gwynedd
- Owain Glyndŵr a'i wrthryfel
- Arglwyddi Mers y De
- Tywysogion Deheubarth
- Capeli, eglwysi a thirlun mynachaidd Cymru
- Treftadaeth y Seintiau Celtaidd
- Atyniad y tirlun
- Amddiffyn y wlad, Sir Benfro
- Ysgogiad – Cymru: Y Genedl Ddiwydiannol Gyntaf


Mae'r rhain yn fframweithiau cryf, strwythuredig, thematig ac ymarferol ar gyfer gwaith dehongli.

**Eiconau'r storïau**

Bydd i bob stori ei eicon ei hun.
Er enghraifft, dyma **eicon stori** Owain Glyndŵr
ar y dde:

Trefnir bod copi digidol o **eicon(au) y stori/storïau** sy'n berthnasol i'ch prosiect chi ar gael. Fe'ch anogir i gynnwys yr eicon a'r ymadrodd **'Dilynwch y stori'** yn eich gwaith dehongli, ynghyd â syniadau ynghylch safleoedd eraill (ar ffurf penawdau a all gael eu defnyddio i grynhoi'r elfen storïol ym mhob safle) lle gall pobl ddilyn y stori. Yn aml bydd hyn yn cynnwys safleoedd yn eich ardal neu'ch rhanbarth daearyddol cyffredinol chi. Ond, o dan rai amgylchiadau fe allai hyn gynnwys safleoedd allweddol ledled Cymru. Ceir canllawiau isod ar sut i ddefnyddio'r eicon ar draws ystod o gyfryngau ichi gyfeirio atyn nhw.

DS mae'r ymadrodd **'Dilynwch y stori'** yn rhan bwysig o gysyniad prosiect dehongli Cymru gyfan ac mae'n offeryn allweddol ar gyfer cysylltu safleoedd ac ar gyfer creu ymwybyddiaeth ymhlith yr ymwelwyr (hynny yw, o weld yr eiconau a'r ymadrodd yn ddigon aml, bydd yr ymwelwyr yn dechrau uniaethu â nhw).
Ceir un enghraifft o sut i ddefnyddio eicon y stori a **'Dilynwch y stori'** isod.



**Beth wna i os yw fy safle neu fy mhrosiect yn berthnasol i nifer o'r storïau?**
Fel arfer dylai fod yn hawdd adnabod y brif stori sy'n berthnasol i'ch prosiect. Dylai'r stori hon gael ei hadlewyrchu yn eich gwaith dehongli cyffredinol. Wedyn gallwch gyfeirio at storïau/eiconau eilaidd ar adegau penodol neu berthnasol yn y deunyddiau dehongli.

Enghraifft 1. Pe baen ni'n datblygu paneli yn Llys Esgob Tyddewi, byddai panel cyffredinol i'r safle yn cyfeirio at stori y seintiau Celtaidd, lleoedd ysbrydol a phererindodau; ond byddai panel sy'n dangos y Llys o safbwynt a fu'n ysbrydoliaeth i ddarlun gan yr artist Kenneth Rowntree yn dangos **eicon stori** 'Atyniad y Tirlun' ac yn awgrymu safleoedd eraill sy'n atseinio'r stori honno.

Enghraifft 2. Yn yr un modd, pe baen ni wrthi'n datblygu paneli i Gastell Harlech, Cestyll Edward I fyddai'r prif eicon stori, ond, yn yr Ystafelloedd Brenhinol, fe fydden ni'n awyddus i ddangos bod Harlech wedi'i ddefnyddio'n fwy aml gan Owain Glyndŵr na chan y brenin, ac felly byddai'r deunyddiau dehongli yn yr ystafelloedd hynny'n dangos **eicon stori** Owain Glyndŵr ac yn annog pobl i **'ddilyn y stori'** ar safleoedd eraill sy'n gysylltiedig â stori Owain Glyndŵr.

**Sut mae cymhwyso hyn ar draws ystod o gyfryngau dehongli?**
*Gwnewch yn siŵr eich bod yn defnyddio'r eicon a'r ymadrodd **'Dilynwch y stori'** fel rhan benodol ond annatod o'ch dylunio, hynny yw, fe hoffem eu gweld yn cael eu defnyddio fel rhan o gynnwys y panel, ac nid eu cuddio yn yr adran lle mae logos yr arianwyr.*

- **Ei ddefnyddio mewn print**
  Gall unrhyw ddeunyddiau print ddefnyddio eiconau'r storïau a'r pennawd **'Dilynwch y stori'** yn gymharol hawdd. Ceir enghreifftiau o'r cyfryngau hyn isod:
  - paneli
  - llyfrau tywys
  - arddangosfeydd
  - taflenni
  - posteri digwyddiadau
  - etc.

  Yn yr enghreifftiau uchod, y disgwyl yw y bydd yr eicon a'r ymadrodd **'Dilynwch y stori'** yn cael eu defnyddio (gydag enghreifftiau o safleoedd i ymweld â nhw a disgrifiad byr o'r hyn y mae'r safle yn ei roi i'r stori).

- **Ei ddefnyddio ar arwyddion**
  Dylai arwyddion gynnwys yr eicon pryd bynnag y bo modd. Er hynny, o gofio'r cyfyngiadau ar le, fyddai arwyddion ddim fel arfer yn cynnwys yr ymadrodd **'Dilynwch y stori'**. Mae'r enghreifftiau o arwyddion lle gallai'r eicon gael ei ddefnyddio yn cynnwys:
    - arwyddion parcio
    - mynegbyst etc.

O ran eithriad, dylai arwyddion croesawu gynnwys yr eicon, **'Dilynwch y stori',** a'r pennawd ar gyfer y safle hwnnw.

- **Ei ddefnyddio mewn cyflwyniadau sain/fideo**
    - Cyflwynaidau film/fideo
      Gall **eiconau'r storïau** gael eu defnyddio fel delweddau ar ddechrau unrhyw gyflwyniad ffilm/fideo, ac eto ar y diwedd, gyda rhestr weledol neu restr sain o safleoedd lle gall pobl **'ddilyn y stori'**
    - Cyflwyniadau sain
      Yma, fyddai **eicon y stori** ddim yn gymwys, ond yn ddelfrydol dylai'r sylwebaeth gyfeirio at y stori berthnasol yn enwedig ar ddiwedd y sylwebaeth, lle dylai rhestr sain o safleoedd lle gall pobl **'ddilyn y stori'** gael ei chynnwys. Gallai'r eicon gael ei ddefnyddio hefyd ar yr offer darlledu.

- **Ei ddefnyddio ar y we/cyfryngau newydd**
    - Os yw'r cyd-destun wedi'i seilio ar destun/delwedd, gallwch ddilyn yr egwyddorion cyffredinol ar gyfer print (uchod). Hoffem eich annog i ddefnyddio eicon y stori ar eich tudalen hafan, ac yn ddelfrydol cynnwys botwm **'Dilynwch y stori'** a fyddai'n arwain at restr o safleoedd perthynol. Os oes gan y safleoedd hyn bresenoldeb ar y we eu hunain, dylech greu hyperddolen iddyn nhw.
    - Yn achos deunyddiau sain, dylech ddilyn y canllawiau uchod ar gyfer sain/fideo. Os delweddau yn unig yw'r deunyddiau, er enghraifft realiti estynedig, dylai'r eicon gael ei gynnwys ble bynnag y bo modd.

- **Ei ddefnyddio ar deithiau tywys**
  Yn yr un modd â'r canllawiau ar sylwebaeth sain, dylai tywyswyr a dehonglyddion ar safleoedd gael eu hannog i roi gwybod i'r ymwelwyr ar ddechrau unrhyw daith neu sylwebaeth fod y safle yn gysylltiedig ag un o'r storïau sydd wedi'u hamlinellu uchod. Dylen nhw atgoffa pobl am hyn hefyd ar y diwedd a chynnwys rhestr o safleoedd lle gall pobl **'ddilyn y stori'**.

- **Cyfryngau eraill**
  Os ydych yn defnyddio mathau eraill o waith dehongli (e.e. gwaith celf etc.) fe allai fod yn fwy priodol cynnwys yr eicon etc. ar ddeunyddiau hyrwyddo neu fathau eraill o gyfryngau ategol yn hytrach nag ar yr eitem ei hun.

**Gwybodaeth dechnegol**


- **Yr eiconau**
  Mae gwaith celf a *pantones* i'r eiconau ar gael ond ichi ofyn amdanyn nhw (gweler 'rhagor o gymorth'). Mae'r eiconau ar gael gyda thestun neu hebddo (gweler y darlun isod). Y naill sydd i gael ei ddefnyddio ran amlaf, ond mae'r llall yn ddefnyddiol i'w roi ar fapiau etc.
  - Er mwyn sicrhau bod y testun o dan yr eicon yn dal yn ddarllenadwy, hoffem awgrymu na ddylai'r eicon fod yn llai na 13mm o led.
  - Yn achos yr eicon heb destun rydyn ni'n argymell na ddylech ddefnyddio lled o lai na 4mm.

Deheubarth

- **'Dilynwch y stori'**
  - Rydyn ni'n awgrymu ffont sans serif megis Gill Sans ar gyfer yr ymadrodd **'Dilynwch y stori'** a'r penawdau ar gyfer y safleoedd perthynol. Mae hefyd yn bwysig bod maint y testun yn briodol i'r cyfrwng ac yn cydymffurfio â'r canllawiau cyfredol ar hygyrchedd
  - *Cofiwch ddefnyddio'r eicon a'r ymadrodd **'Dilynwch y stori'** fel rhan benodol ond annatod o'ch gwaith dylunio.*

Rydyn ni wedi cynnwys enghreifftiau ymarferol o ddeunyddiau dehongli sy'n defnyddio'r eiconau a'r ymadrodd **'Dilynwch y stori'** neu benawdau sy'n benodol i'r safle, a gobeithio y bydd y rhain yn fuddiol.






**Rhagor o gymorth?**

Mae Cadw yn ddigon bodlon rhoi rhagor o gyfarwyddyd a chyngor. Mae'r eiconau ar gael ond ichi ofyn i Cadw amdanyn nhw. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Dave Penberthy
Pennaeth Dehongli a Dysgu
Ymgysylltu â'r Cyhoedd a Llywodraethu
Cadw
01443 336080
david.penberthy@cymru.gsi.gov.uk

David Jones
Rheolwr Dehongli
Ymgysylltu â'r Cyhoedd a Llywodraethu
Cadw
01443 336087
David.Jones5@cymru.gsi.gov.uk